# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 14 Tachwedd 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Rôl a Swyddogaethau Prif Weinidog Cymru a Dirprwy Brif Weinidog Cymru

**C9 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru esbonio'r gwahaniaeth rhwng rôl a swyddogaethau Prif Weinidog Cymru a Dirprwy Brif Weinidog Cymru? (OAQ7722)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oes unrhyw ddryswch yn hyn o beth. Eglurais rôl Dirprwy Brif Weinidog Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Hydref, ac nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at hynny.

### Cabinet y Cynulliad

**C10 Pauline Jarman:** Sut y gwnaiff Prif Weinidog Cymru sicrhau atebolrwydd yn y modd y cyflawnir pob un o swyddogaethau Cabinet y Cynulliad, yn dilyn yr ad-drefnu diweddar? (OAQ7726)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae holl aelodau'r Cabinet yn atebol o fewn telerau Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a'r Rheolau Sefydlog wrth gyflawni eu holl swyddogaethau.

### Y Glymblaid â'r Democratiaid Rhyddfrydol

**C11 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw drafodaeth y mae wedi ei chynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y glymblaid â'r Democratiaid Rhyddfrydol? (OAQ7728)

**Prif Weinidog Cymru:** Na wnaf.

### Proffil Rhyngwladol Cymru

**C12 John Griffiths:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y prif fudd a gafwyd i broffil rhyngwladol Cymru hyd yn hyn oherwydd datganoli? (OAQ7711)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol a datganoli Llywodraeth i bobl Cymru wedi ysgogi llawer o ddiddordeb ar y llwyfan rhyngwladol, ac mae eisoes wedi ennyn amrediad o gyfleoedd i godi proffil Cymru yn rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys gwahoddiadau i Gymru gael ei chynrychioli mewn cynadleddau rhyngwladol, ymweliadau â Chymru gan enwogion dylanwadol ac uchel eu proffil o dramor, a gwahoddiadau i bobl o Gymru ymweld â gwledydd eraill ac fel arall. Mae'r gallu i sefydlu ein swyddfa ein hunain ym Mrwsel wedi rhoi cyfle pwysig i Gymru gael ei gweld a'i chlywed yng nghalon Ewrop ac mae nifer o ranbarthau a gwledydd tramor wedi dod atom gyda cheisiadau i sefydlu cysylltiadau dwyochrog â Chymru a fyddai'n adeiladu ar y rheini sydd gennym eisoes. Drwy weithio gyda'n sefydliadau partner yng Nghymru, mae'r cyfleoedd hyn a nifer o gynlluniau eraill yr ydym eisoes yn mynd ar eu trywydd yn rhoi sylfaen gref i'r Cynulliad weithio arni i gyflawni un o'i brif flaenoriaethau, sef codi proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a'i sefydlu fel lle delfrydol i fyw, astudio, dod ar wyliau neu ar gyfer busnes.

### Teitl y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon

**C13 Owen John Thomas:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi ail-ystyried cynnwys yr iaith Gymraeg yn rhan o deitl y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon? (OAQ7730)

**Prif Weinidog Cymru:** Ydwyf. Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg fydd teitl y Gweinidog o hyn ymlaen.

### Perthynas y Cynulliad Cenedlaethol â Chanolfan Ewropeaidd Cymru

**C14 William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar berthynas y Cynulliad Cenedlaethol â Chanolfan Ewropeaidd Cymru? (OAQ7733)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn aelod tanysgrifedig o Ganolfan Ewropeaidd Cymru ac mae gennym berthynas gadarnhaol. Gobeithiwn y gallwn ffurfioli hynny'n fuan mewn protocol ar gysylltiad y Cynulliad â Chanolfan Ewropeaidd Cymru. Yr wyf wedi dosbarthu drafft ohono i arweinwyr y pleidiau yn ddiweddar er mwyn iddynt roi eu sylwadau arno. Mae ein haelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru yn rhan bwysig o'n hagwedd Tîm Cymru tuag at Ewrop, ac yr ydym yn elwa ar Ganolfan Ewropeaidd Cymru yn unol â'r cytundeb lefel gwasanaeth.

### Mesurau Llywodraeth y DU (Safbwyntiau'r Cynulliad Cenedlaethol)

**C15 David Lloyd:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi trafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru sut y gellid cynrychioli safbwyntiau'r Cynulliad Cenedlaethol yn well ym Mesurau Llywodraeth y DU a gyhoeddir? (OAQ7721)

**Prif Weinidog Cymru:** Ydwyf.

### Polisi Ewropeaidd y Cynulliad Cenedlaethol

**C16 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar ei gyfraniad i'r gwaith o ddatblygu polisi Ewropeaidd y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ7716)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn OAQ7581 Phil Williams ar 7 Tachwedd a oedd yn union yr un fath.

### Hyrwyddo Partneriaeth â Busnes yng Ngogledd Cymru

**C17 Dafydd Wigley:** Beth y mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud i hyrwyddo Partneriaeth â Busnes yng ngogledd Cymru? (OAQ7724)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a minnau'n ymweld â busnesau yng ngogledd Cymru yn gyson er mwyn parhau i hyrwyddo egwyddorion partneriaeth. Mae'r ymweliadau hyn ar y cyd â gwaith y Cyngor Partneriaeth Busnes a'r fforymau economaidd rhanbarthol yn sicrhau ein bod ar gael a'n bod yn clywed pryderon y busnesau. Yn ogystal, yn fuan yn y flwyddyn newydd, byddaf yn cael y pleser o lansio Busnes Gogledd Cymru.

### Gweithredu Cydgyfrifoldeb yng Ngweithrediaeth y Cynulliad

**C18 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar weithredu cydgyfrifoldeb yng Ngweithrediaeth y Cynulliad? (OAQ7708) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Rhaglen Ddeddfwriaeth San Steffan ar gyfer Blwyddyn Seneddol 2000-01

**C19 Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch anghenion Cymru o fewn rhaglen ddeddfwriaeth San Steffan ar gyfer blwyddyn seneddol 2000-01? (OAQ7727)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at yr ateb a roddais i OAQ7395 Dai Lloyd yn y Cyfarfod Llawn ar 31 Hydref.

**Polisïau'r Cynulliad ar Faterion Ieuenctid, Diogelwch Cymunedol, Camddefnyddio Sylweddau a Datblygu Cymunedol**

**C20 Peter Black:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn cydlynu polisïau'r Cynulliad ar faterion ieuenctid, diogelwch cymunedol, camddefnyddio sylweddau a datblygu cymunedol i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â materion o'r fath mewn dull trawsbynciol? (OAQ7710)

**Prif Weinidog Cymru:** Ar lefel weinidogol, mae gan Jane Hutt gyfrifoldeb trosfwaol dros gydlynu strategaeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc, er bod Edwina Hart a Jane Davidson yn arwain ar rai materion penodol yn y maes eang hwn. Bydd y tair Gweinidog yn ymgynghori'n rheolaidd ar faterion sydd o ddiddordeb iddynt oll.

Bydd y Cynulliad yn ymgynghori'n fuan ar ei strategaeth ar gyfer pob gwasanaeth sydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys cydlynu materion ieuenctid sef testun yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r enw 'Ymestyn Hawliau'. Mae'r strategaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, ynghyd â diogelwch cymunedol, camddefnyddio sylweddau a datblygu cymunedol i gyd yn faterion sydd yn cael eu trin gan swyddogion grŵp polisi cymdeithasol y Cynulliad, sydd yn cydweithio'n agos, gan gysylltu gyda gwaith ar addysg, iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau dull gweithredu trawsbynciol.

**Materion Trawsbynciol yng Ngogledd Cymru**

**C21 Janet Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar gwrdd â gofynion materion trawsbynciol yng ngogledd Cymru? (OAQ7718)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyfeiriaf Ms Davies at yr ateb a roddais i'r cwestiwn a gyflwynwyd gan Rhodri Glyn Thomas yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma. Mae materion trawsbynciol yn effeithio ar bob rhanbarth yng Nghymru. Byddaf yn sicrhau y caiff holl ranbarthau Cymru eu hystyried pan fydd y Cynulliad yn penderfynu ar bolisïau, ac yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros ogledd Cymru, byddaf yn sicrhau na fydd gogledd Cymru ar ei cholled gyda golwg ar faterion trawsbynciol a datblygu cynaliadwy.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Ewropeaidd Cymru**

**C22 Christine Gwyther:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ar y modd y mae'r berthynas waith rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Ewropeaidd Cymru yn datblygu? (OAQ7705) ***Tynnwyd yn ôl***

**Y Cyswllt rhwng Whitehall a Gweision Sifil Cymru**

**C23 Alison Halford:** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cymryd i sicrhau na fydd y gwendidau yn y cyswllt rhwng Whitehall a gweision sifil Cymru, fel yr amlygwyd yn adroddiad Phillips, yn digwydd yn y dyfodol? (OAQ7729)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn dod â dimensiwn gwleidyddol newydd i waith Llywodraeth yn y DU. Nid oes modd anwybyddu pryderon Cymru bellach. Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn cwrdd â Gweinidogion amaeth y DU yn rheolaidd.

Mae creu Asiantaeth Safonau Bwyd annibynnol y DU, sydd â threfniadau penodol i gynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ac sydd yn atebol iddo, yn golygu nad ydym ni yng Nghymru yn ddibynnol ar gyswllt â Whitehall mewn perthynas â materion diogelwch bwyd. Ar ben hynny, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei oleuo'n llawn erbyn hyn ar ystyriaethau'r Pwyllgor Ymgynghorol Ensephalopathi Sbyngffurf, y pwyllgor arbenigol sydd yn cynghori Llywodraeth y DU ar faterion BSE ac amrywiolyn newydd CJD. Yn yr un

modd â gweinyddiaethau datganoledig eraill, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn anfon arsyllwr i gyfarfodydd y pwyllgor hwnnw.

Yn dilyn datganoli, mae'r concordatiau gydag adrannau Whitehall yn ffurfioli eu hymrwymiad i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael gwybod y diweddaraf am faterion sydd o bryder cyffredinol ac yn cael cyfrannu at y materion hynny. Mae'r camau sydd yn cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU i ymateb i adroddiad Phillips yn cynnwys y Cynulliad Cenedlaethol a gweinyddiaethau datganoledig yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Cydlynu Polisi ar gyfer Gogledd Cymru

**C24 Janet Ryder:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y gwaith o gydlynu polisi ar gyfer gogledd Cymru? (OAQ7719)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyfeiriaf Ms Ryder at fy ateb i gwestiwn a gyflwynodd hi yn y Cyfarfod Llawn ar 31 Hydref (OAQ7387). Fel y Gweinidog sydd yn gyfrifol am gydlynu polisi'r Llywodraeth yng ngogledd Cymru, byddaf yn gweithio i sicrhau y cynrychiolir y Gogledd ym mholisïau'r Cynulliad.

## Penodiad Dirprwy Brif Weinidog Cymru

**C25 Glyn Davies:** Drwy ba awdurdod statudol y penodwyd Dirprwy Brif Weinidog Cymru? (OAQ7734)

**Prif Weinidog Cymru:** Adran 53(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, sydd yn mynnu fy mod yn penodi Cabinet. Mae'r teitl Dirprwy Prif Weinidog yn anstatudol, fel y mae yn Llywodraeth y DU ac yng Ngweithrediaeth yr Alban, ac nid yw'n ennyn cyflog ychwanegol. Dim ond disgrifio rhan o rôl Mike German y mae'r teitl.

## Partneriaeth â Busnes (Datblygu Polisi yn y Cynulliad)

**C26 Geraint Davies:** Sut y gwnaiff Prif Weinidog Cymru sicrhau bod Partneriaeth â Busnes yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisi yn y Cynulliad? (OAQ7731)

**Prif Weinidog Cymru:** Trafodir y mater hwn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth Busnes sydd i fod i gael ei gynnal ar 1 Rhagfyr.

## Ymrwymiad i Fuddsoddi yn ein Dyfodol

**C27 Gareth Jones:** Sut y datblygir polisi i sicrhau bod ymrwymiad i fuddsoddi yn ein dyfodol, fel ag yr amlinellir yn 'Gwellcymru.com', yn cael ei gyflawni? (OAQ7717)

**Prif Weinidog Cymru:** Fel y dywedais yn fy ymateb i gwestiwn Jocelyn Davies ar 7 Tachwedd, mae buddsoddi yn ein dyfodol yn rhan ganolog o'r agenda Gwnaethpwyd yng Nghymru, a fabwysiadwyd gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Elfen allweddol o hyn yw cefnogi ein pobl ifanc, ond mae hefyd yn golygu gwrando arnynt. Mae'r rhaglen Llais Ifanc ac Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi rhoi cyfle i bobl ifanc gyflwyno eu barn a'u dyheadau.

Elfen allweddol arall yw mynd i'r afael ag iechyd y bobl. Mae polisïau clir ac ymarferol yn cael eu datblygu, gyda strategaeth NHS Cymru i gael ei lansio yn y flwyddyn newydd, a strategaethau pellach ar y gweill, gan gynnwys gofal sylfaenol. Caiff yr ychwanegiadau sylweddol mewn cyllid a gynigiwyd yn y gyllideb eu targedu at wasanaethau rheng flaen, ond clustnodir peth o'r arian hefyd i fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd afiechyd.

Comisiynwyd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru i gynhyrchu papur ar sut y gellid datblygu bagloriaeth i Gymru, a'i gyfosod yn rhan o'r fframwaith cyffredinol ar gyfer cymwysterau. Dylai'r papur hwn fod yn barod cyn bo hir, a bydd yn darparu deunydd inni ei ystyried wrth benderfynu

ar sut orau i ddatblygu ein hymrwymiad i dreialu bagloriaeth i Gymru. Yr ydym hefyd yn buddsoddi yn y dyfodol drwy ddatblygu economaidd a strategaethau amaethyddol.